

Sul yr Urdd

Darlleniad: 1 Ioan 2: 7, 4: 5-17

‘Gwnaeth ef hefyd o un dyn yr holl genhedloedd i breswyllo ar wyneb y ddaear ...’

Diolchwn i ti, O! Dduw, am Urdd Gobaith Cymru, am weledigaeth ei sylfaenydd ac am y cenedlaethau o blant a phobl ifainc sydd wedi elwa ac sy'n parhau i elwa o'r ddarpariaeth a gynigir drwy'r mudiad hwn.

Cynorthwya ni yn unol ag arwyddair triphlyg yr Urdd i addunedu ein ffyddlondeb i Gymru, i Gyd-ddyn ac i Grist.

Ffyddlondeb i Gymru:

‘Dros Gymru'n gwlad, O! Dad, dyrchafwn gri,
Y winllan hon a roed i'n gofal ni ...’

Cydnabyddwn, O! Dad, mai rhodd oddi wrthyt ti yw cenedl a gwlad, treftadaeth gyfoethog yr ymddiriedwyd inni'r cyfrifoldeb o'i gwarchod a'i hamddiffyn a'i throsglwyddo'n ddilychwin i bob cenedlaeth.

Diolchwn i ti am ein hiaith a'n diwylliant, am dir ein gwlad a'i thraddodiadau llenyddol a barddonol; am geinder crefft ac am arbenigrwydd a hunaniaeth ein cenedl. Ond gwyddom hefyd, O! Dad, fod Cymru'n newid. Yr ydym yn genedl o bobl gymysgryw fel pob cenedl arall, ac mae'n anochel fod gan bawb eu delwedd o Gymru. Ond yn ogystal â gweld y ddelwedd, helpa ni i geisio'n adnabod ein hunain am yr hyn ydym ni. Mewn hunanadnabyddiaeth y mae ymdrech at ddelfryd, a'r ddelfryd yw Cymru hyderus a'i hiaith a'i phobl yn ffynnu.

Ffyddlondeb i Gyd-ddyn:

‘Maent cyn hyned â'n daear,
O un gwaed fe'u crewyd yn wâr
A'u gwasgar i bedwar ban,
Hen hil, yn deulu cyfan;
Cwlwm gwiw o genhedloedd
A swm eu tras, trysor oedd.’

Diolchwn i ti, O! Dad, am ein hil a'n gwna'n deulu ac yn bobl sy'n rhannu perthynas a thras a thrysor adnabyddiaeth. Mae hynny'n ein dyrchafu uwchlaw hynodrwydd iaith a diwylliant a lliw croen, ac yn ein creu yn ddynoliaeth - yn frodyr ac yn chwiorydd i'n gilydd.

Gweddiwn dros ein cyd-ddynion ymhob gwlad ar iddynt rannu'r weledigaeth a ddaw â chymod a heddwch i'n byd; iddynt gynnal y gwerthoedd hynny sy'n diogelu bywyd cymdeithas ac ymdrechu i fyw mewn cytgorod â'r greadigaeth.

Ffyddlondeb i Grist:

‘Cysegrwn flaenffrwyth dyddiau'n hoes
I garu'r hwn fu ar y Groes ...’

Gweddiwn am nerth i fod yn ffyddlon i Grist a'i gariad ef. Diolchwn i ti, O! Dad, am y copa gwyn sydd i fathodyn yr Urdd - yn arwydd o'r nod yr ymgyrchwn tuag ato. Boed inni gofio bod y gwyrdd a'r coch - gwlad a chyd-ddyn - yn ddarostyngedig i'w awdurdod ef.

Diolchwn i ti am ein Harglwydd Iesu Grist sy'n ein cymell ni i fod yn ddilynwyr iddo ac i weithio drosto. Helpa ni i gysegru ein doniau a'n gallu i'w wasanaethu, a boed i eraill drwy'r gwasanaeth hwnnw ei weld ef ynom ni.

Bendithia fudiad Urdd Gobaith Cymru yn holl agweddau ei weithgarwch. Nertha ni, Arglwydd, i gadw'n haddewid i fod yn ffyddlon i Gymru ac yn deilwng ohoni i fod yn ffyddlon i'n cyd-ddyn pwy bynnag y bo, ac yn ffyddlon i Grist a'i gariad ef. Amen.

Peter Thomas